# Ein Gwaith yn Ystod y Pandemig

## Mawrth 2020 – Medi 2021



Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru




# Neges oddi wrth ein Cadeirydd - Mae Pawb yn Bwysig

**Chi, bawb ohonoch, yw Blynyddoedd Cynnar Cymru; y plant, eu teuluoedd, ein lleoliadau aelod ac unigolion, staff yn y sector, gwirfoddolwyr a'n tîm o staff a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Ein hymdrechion ar y cyd sy'n gwneud blynyddoedd cynnar yn sector arbennig i weithio ynddo.**



Rwyf wedi bod yn Ymddiriedolwr am dros 16 o flynyddoedd ac wedi gweld y sector a'n sefydliad yn datblygu a'm llygaid fy hun. Mae fy nghefndir mewn amaethyddiaeth a'm llwybr i flynyddoedd cynnar oedd fy nheulu fy hunan a thrwy ddod yn Ofalwr Maeth i blant oedd angen ein help. Yna, gadewais ffermio i helpu gyda lleoliadau a grwpiau yn fy ardal cyn dod yn aelod o'r Bwrdd yn 2003. Fel Cadeirydd, ac fel pob Ymddiriedolwr, rwyf wedi ymrwymo i helpu'r sefydliad i dyfu a datblygu. Rydym yn chwarae rôl bwysig mewn goruchwylio'r cynlluniau gweithredol a strategol gyda'r Prif Weithredwr ac yn sicrhau fod llywodraethiant y sefydliad yn ddiogel. Rydym hefyd yn clywed o lygad y ffynnon am y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan ein tîm o staff, ac rydym yn diolch iddyn nhw am eu hymdrechion diflino.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, doedd dim cyfle i ni fod yn eich mysg, mewn seremonïau gwobrwyo a digwyddiadau ac rydym yn gobeithio y daw'r dyddiau hynny'n ôl at bob un ohonom. Roedd hynny'n fy atgoffa am bethau eraill sydd wedi'u colli neu sy'n anoddach i'w cyflawni yn ystod y pandemig.
Mae pethau fel cyfleoedd plant i gysylltu gyda chyfoedion a ffrindiau mewn chwarae dychmygol; mae pethau syml fel cymryd bocs a'i droi'n gar, siop, roced ayb wedi bod yn anos i bawb eu gwneud.

Cafodd cyfleodd fel mynd â phlant i'r awyr agored i gael blas ar eu hamgylchedd, y byd o'u cwmpas, eu chwalu yng Ngwanwyn 2020. Mae'r pethau hyn yn golygu cymaint i blant ifanc ac rydyn ni'n dal wedi'n hymrwymo i werth chwarae fel sefydliad blynyddoedd cynnar.

Gobeithio eich bod wedi gwerthfawrogi'n help ni hefyd. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhannu peth o'r gwaith hwn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch iawn ohono i gyd... a'r holl waith nad ydym yn ei grybwyll yn y crynodebau megis gweinyddiaeth hanfodol, cyllid a'r tasgau swyddfa o ddydd i ddydd sy'n ein cadw ni'n gweithio fel elusen.

Rydyn ni'n gobeithio eich bod yn cydnabod ein hymdrechion ni hefyd. Os ydych yn teimlo yr hoffech chi ein helpu i ychwanegu mwy o werth, rydym pob amser â diddordeb mewn clywed oddi wrthych, ein haelodau, ac mewn derbyn mynegiant o ddiddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr. Mae'n waith diddorol ac yn un sy'n rhoi llawer iawn o foddhâd o fod wedi gwneud rhywbeth i ychwanegu gwerth at y pethau rydych chi ar fin darllen amdanyn nhw.

**Diolch i bob un ohonoch am eich cyfraniadau a'ch gwaith.**

**Arhoswch yn ddiogel,
Mike**

*Mike Thorne*

***Mi wn fod pob un ohonoch wedi bod yn wych, yn helpu plant a theuluoedd i lywio trwy'r pandemig hwn ac yn darparu gofal ysbrydoledig i blant blynyddoedd cynnar.***
***Diolch yn fawr iawn i chi.***



# Gair gan y Prif Weithredwr - Dave Goodger

*Medi 2021*

Heb os, mae unrhyw un sy'n edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf yn gweld mwy o'r pandemig na dim arall, a'r effaith mae hynny wedi'i gael ar bobl a sefydliadau ledled Cymru. Yma, ym Mlynyddoedd Cynnar Cymru, ymatebodd y staff yn bositif, gan weithio gartref a dal i gefnogi'r aelodaeth trwy ansicrwydd y pandemig o fis Mawrth 2020. Fel Prif Weithredwr newydd, roedd yn gyflwyniad heb ei ail i'm swydd.

> **Gydol y pandemig, rydym wedi bod yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhai'n cymryd penderfyniadau yn clywed llais y sector. Bu Blynyddoedd Cynnar Cymru, a'n partneriaid Cwlwm, yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n clywed beth oedd gennych chi i'w ddweud a'ch bod chithau, ein haelodau, yn clywed am bolisïau a chanllawiau'r Llywodraeth.**



Fel y byddwch yn darllen, rydyn ni wedi dylanwadu'n bositif ac yn bell gyrhaeddol eleni. Mae'n partneriaethau wedi ehangu a datblygu a thrwy reolaeth ariannol ofalus, rydyn ni'n gallu cynnig mwy i'n haelodau, gan gynnwys rhagor o hyfforddiant a chyfleoedd. Roeddwn i, yn bersonol, yn gwneud yn siŵr fy mod i'n cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r holl aelodau yn ystod y pandemig ac rwy'n bwriadu parhau gyda hynny yn y dyfodol drwy gysylltu'n uniongyrchol a thrwy E-bost gyda'r sefydliadau sy'n aelodau. Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf, rheolaidd, gennyf i byddwch yn dal i dderbyn y newyddion rhanbarthol ac ynghylch prosiectau rydych yn ei gael oddi wrth fy nghydweithwyr.

Yn olaf, mae holl staff Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi ymrwymo i ddal i gefnogi sefydliadau ein haelodau. Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru i ddiweddaru Safonau Gofynnol Cymru, y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau nas gynhelir, Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a datblygu'r gweithlu blynyddoedd cynnar, er budd ein haelodau. Rydym wedi cynyddu ein gwaith mewn gair a gweithred i gefnogi cynllun gwrth hiliaeth Cymru wrth i ni geisio goresgyn rhwystrau a thaclo anghydraddoldebau ble bynnag maen nhw'n bodoli. Trwy ymdrechu i wneud hyn, byddwn yn gallu gweld gwell rhagolygon i'n holl blant ac yn ei dro, Cymru well a mwy cyfiawn ar gyfer ein dyfodol.

**Roeddwn eisiau rhannu'n gwaith ac allbynnau o'r flwyddyn ddiwethaf gyda chi i gyd, ac i gydnabod yr hyn rydyn ni i gyd wedi'i wneud gyda'n gilydd. Rydym yn gwneud hyn hefyd i gydnabod eich gwaith rhagorol a gwerthfawr yn darparu gofal plant mewn amgylchiadau heriol. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod hynny a mwy... ac rydym yn dal ati i adeiladu ac ymestyn ein buddion i aelodau i gefnogi pob un ohonoch.**

**Diolch am fod gyda ni!**

Dave Goodger

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Mae plant yn datblygu ac yn ffynnu wrth ddewis eu cyfleoedd eu hunain i chwarae, sy'n eu galluogi i fagu hunan hyder a sgiliau creadigol.





**Fel y sefydliad ymbarél arbenigol arweiniol yng Nghymru, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi'i ymroi i ddatblygiad plant 0-5 mlwydd oed – gan cefnogi darparu sicrwydd ansawdd mewn dysgu a chyfleoedd chwarae creadigol â strwythur i blant. Ein nod yw gwneud yn siŵr fod pob plentyn yng Nghymru'n cael y dechrau gorau mewn bywyd.**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi bod yn cefnogi rhieni a theuluoedd i gymryd rhan yn natblygiad eu plant am fwy na 30 mlynedd. Roedd hyn yn amcan craidd y sefydliad ac rydyn ni'n dal i ddatblygu ffyrdd i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth o adeg geni a gydol eu blynyddoedd cynnar eu plant.

Yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf, gyda chymorth arian ychwanegol, rydym wedi gallu cefnogi mwy o blant a theuluoedd nag erioed o'r blaen. Trwy ymestyn allan i gymunedau ar draws Cymru, gosod safonau ac ysbrydoli eraill tra'n hyrwyddo balchder yn ein sector, rydym yn gobeithio y byddwn, gyda'n gilydd, yn gweld plant yng Nghymru'n ffynnu.

**Dychmygwch y rhan y gallwch chi ei chwarae.**

*I ganfod rhagor ymwelwch â **earlyyears.wales** neu e-bostiwch **info@earlyyears.wales***



# Ein blwyddyn mewn rhifau

## Yn 2020 – 2021 rydyn ni wedi cefnogi **28,718** o blant yn derbyn gofal yng Nghymru



**906 o aelodau**
gan gynnwys o Ofal Dydd Llawn, Grwpiau Chwarae, Grwpiau Rhiant a Phlentyn Bach, Gwarchodwyr, Creche, Myfyrwyr, Corfforaethol ac unigolion proffesiynol

**65%**
o aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru'n derbyn **30 awr o arian g ofal plant**

**24%**
yn cael eu hariannu gan Ddechrau'n Deg

**130**
o sesiynau Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru wedi'u cynnal mewn **22** o awdurdodau lleol

**22%**
yn darparu'r Cyfnod Sylfaen

**123**
o ymarferwyr gofal plant, chwarae a gymnasteg wedi'u hyfforddi i ddarparu'r rhaglen Babi Actif a Chi

Darparwyd sesiynau hyfforddi ar lein a gweminarau am ddim i dros
**450**
o ymarferwyr a phobl broffesiynol gofal plant.

**Diolch**
i bawb a fu'n ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r nifer sy'n ein dilyn ar Facebook wedi dyblu i dros
**1400**
o 'hoffi tudalen'

**65%**
o aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi sôn wrthym eu bod yn defnyddio Cymraeg gyda'r plant yn y lleoliad yn amrywio o sylfaenol i ddwyieithog.

# Ar draws y rhanbarthau...

**Fel i lawer o sefydliadau, roedd y pandemig yn golygu ein bod wedi gorfod cau (dros dro) ddrysau ein swyddfa er diogelwch ein staff. Fodd bynnag, doedd gweithio o bell ddim yn golygu ein bod yn darparu llai o wasanaeth i'n haelodau. Roedden ni'n dal ati i gefnogi mewn ffyrdd eraill, megis dros y ffôn a thrwy e-bost, ac wedi addasu llawer o'n gwasanaethau a'n cynigion i gefnogi aelodau er mwyn i ni allu dal ati i gynnig ystod eang o fuddion a chyfleoedd.**

Ble bynnag yr ydych chi, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yno i'ch cefnogi. Mae'n timoedd rhanbarthol yn cynnwys rheolwr rhanbarthol, Gweithwyr Datblygu yn cael eu hariannu mewn rhai awdurdodau lleol a staff cefnogi sy'n cael eu hariannu'n ganolog.

***"Diolch yn fawr iawn am wrando, mae'n wych gallu trafod pethau gyda chi"***

*Bu staff yn cefnogi aelodau gyda cheisiadau grant – cyfanswm o £88,822.00 o wahanol ffynonellau a £132,045.00 o Sefydliad Moondance =* ***£220,867***

(Gweler: Sefydliad Moondance ar Draeth Môn, *small***talk**, (gaeaf 2020), tudalen 6–7)

## Wyddech chi?

- Mae cynrychiolwyr o'n timoedd rhanbarthol yn eistedd ar baneli aml asiantaeth ar gyfer Grantiau Cynnig Gofal Plant a Grantiau Covid. Maen nhw'n eirioli dros yr holl leoliadau gofal plant cofrestredig ac, o ganlyniad, mae cannoedd o filoedd o bunnoedd yn cael eu cyfeirio i wella eiddo gofal plant ac i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer busnesau gofal plant ym mhob sir er mwyn iddyn nhw oroesi'r pandemig gyda'r colled lleiaf.
- Roedd ein timoedd yn helpu'r lleoliadau i ganfod eu ffordd trwy'r canllawiau oedd yn newid bob yn ail â pheidio yn nyddiau cynnar y pandemig. Roedden ni yno i wrando ac i gefnogi lleoliadau ac, yn bwysicach, i gynnig arweiniad a gwybodaeth ymarferol.
- Roedden ni'n cefnogi lleoliadau gyda phroses gofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru a gyda'r gweithdrefnau eraill roedd yr Arolygiaeth yn gofyn amdanyn nhw e.e. Hunan Asesiad Datganiad Gwasanaeth a newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n deall anawsterau plentyn sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn ymuno gyda phlant eraill mewn lleoliad gofal plant. Rydyn ni'n helpu os yw teulu'n cael trafferth i ddeall ymddygiad, gweithredoedd neu anghenion plentyn ac yn canfod grŵp chwarae neu feithrinfa sy'n gallu ymdrin ag anghenion eu plentyn. Ar draws Cymru rydym wedi cefnogi bron i 80 o blant a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod clo.
- Mae aelodau'n dweud mai ni oedd y sefydliad i fynd ato er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a chefnogaeth ymarferol.



**Gydag arweiniad Llywodraeth Cymru yn newid yn gyson, rhai o'r pynciau y gofynnwyd am gefnogaeth yn eu cylch oedd:**

### Diwygio ac Adolygu Polisïau a Gweithdrefnau

Mewn ymateb i hyn cynhyrchodd Blynyddoedd Cynnar Cymru set o bolisïau dwyieithog i helpu pob lleoliad wrth ail agor: Canllawiau ar gyfer rheoli swigod, cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo. Roedden ni hefyd wedi dylunio amrywiaeth o sticeri llawr a phosteri er mwyn helpu gyda golchi dwylo a chadw pellter cymdeithasol mewn lleoliadau.

### Asesiadau risg

Fe wyddom fod cynnal asesiadau risg yn rhan barhaus o redeg unrhyw fusnes gofal plant. Fodd bynnag, roedd Covid-19 yn gofyn am agwedd newydd ac am gynnal asesiadau risg cadarnach a mwy trylwyr cyn agor. Er mwyn helpu'r lleoliadau, cynhyrchodd Blynyddoedd Cynnar Cymru becyn canllawiau asesiad risg dwyieithog.

### Ffyrlo

Wrth i ganllawiau'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws gael eu cyhoeddi a'u diweddaru gan Lywodraeth y DU, roedden ni'n anfon yr wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau'n trwy ein tudalen wybodaeth Covid-19 ar ein gwefan (earlyyears.wales/news), trwy e-bost a hefyd trwy *small***talk** (gwanwyn 2021)



Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru



# Effeithiau technoleg

**Mor gynnar yn y pandemig ag Ebrill 2020, dywedodd Brad Smith, Microsoft, fod dwy flynedd o drawsnewidiad digidol wedi digwydd mewn dim ond dau fis.**

Erbyn hynny roedden ni wrthi'n symud ymlaen yn braf i ddatblygu a rhoi gwedd newydd ar wefan Blynyddoedd Cynnar Cymru. Roedden ni'n gwybod o'n sgyrsiau gyda'n haelodau, er bod gwybodaeth hanfodol a'r newyddion diweddaraf ar gael ar ein safle bresennol, y gallai fod yn gwneud llawer mwy.

**Mae'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn mynd o nerth i nerth**

### Facebook
***Hoffi tudalen:*** **1410** cynnydd o 731 ym mis Ebrill 2020
***Dilynwyr tudalen:*** **1599** cynnydd o **773** ym mis Ebrill 2020
***Post a welwyd fwyaf:*** cyrraedd **3607** o bobl

### Twitter
**1141** o ddilynwyr
**12,817** wedi edrych ar broffil
***Post a welwyd fwyaf:*** **15,000**

### Instagram
**403** o ddilynwyr

### LinkedIn
**141** o ddilynwyr

Fis Mehefin 2020, lansiwyd nifer o agweddau newydd arni a oedd wedi'u dylunio nid yn unig i fod yn fwy cyfeillgar i ddefnyddiwr, ond hefyd a fyddai'n rhyddhau amser gweinyddu - a allai gael ei ddefnyddio'n well er budd ein haelodau.

- Mewngofnodi newydd sbon ar gyfer aelodau – yn galluogi aelodau i gael at eu data eu hunain; adnewyddu aelodaeth, diweddaru manylion cyswllt, diwygio cyfeiriad ayb
- Llawrlwythiadau i aelodau'n unig
- Adnodd hunan wasanaeth ar gyfer swyddi gofal plant – yn galluogi aelodau i hysbysebu swyddi gwag ar lein, derbyn Mynegiant o Ddiddordeb oddi wrth ymgeiswyr a chael eu rhannu ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol
- System archebu ar lein ar gyfer ein holl hyfforddiant a'n digwyddiadau



**Mae ein Gwefan yn Ystadegau:**

***41,000*** *o ymwelwyr*
*Dros* ***7,000*** *o lawrlwythiadau*
***77*** *o swyddi gwag wedi'u hysbysebu*
***49*** *o bobl yn chwilio am swydd wedi holi'r person yn recriwtio yn uniongyrchol gan ddefnyddio'n ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb ar lein*
***43*** *o ddigwyddiadau hyfforddi wedi'u cynnal ar lein*
***450 o gyfranogwyr*** *(tua 50% o aelodau) wedi mynychu o leiaf un o'n digwyddiadau ar lein*







# Cyhoeddiadau ac adnoddau

**Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae pawb ohonom wedi gorfod ymateb i amgylchiadau newydd a hefyd addasu i newidiadau mewn canllawiau. Dydyn ni erioed wedi gorfod ymdrech cymaint i ganfod ffyrdd newydd o weithio nac i fod mor arloesol yn ein hymarferion pob dydd. Ac nid yw ein cyhoeddiadau a'n hadnoddau'n eithriad, mae pob un wedi'i ddylunio i ddod â'r gorau allan yn eich busnes a'ch staff.**

**Gorffennaf 2020** – ***Helo Pawb***
*Pecyn Llafaredd Cymraeg i rieni – am ddim i'w lawrlwytho i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau*

**Gorffennaf 2020** – ***Covid-19***
*pecyn polisïau ychwanegol ac asesiad risg Covid-19 - am ddim i'w lawrlwytho i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau*

**Medi 2020** – ***Pecyn Adnoddau Cyflogwyr Diwygiedig***
*ar ddisgownt i aelodau'n unig*

**Mawrth 2021** – ***Pecyn Polisïau a Gweithdrefnau Diwygiedig***
*ar gael am ddim i aelodau hyd at ddiwedd Mehefin 2020*

**Ebrill 2021** – ***Cofrestr Presenoldeb Ddiwygiedig***
*ar ddisgownt i aelodau*

**Ebrill 2021** – ***Pamffledyn Gweithgareddau Tymhorol Traddodiadol***
*i'w lawrlwytho am ddim i aelodau'n unig*

**Ebrill 2021** – ***Iansiwyd pecyn peilot gwaith Ymwybyddiaeth Ansawdd Gofal Plant***
*yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i gyfranogwyr presennol Ansawdd i Bawb*

**Mehefin 2021** – ***Canllawiau ail agor Grŵp Rhiant a Phlentyn Bach***
*i'w lawrlwytho i aelodau am ddim*

**Gorffennaf 2020** – ***Pecyn adnodd Dysgu Creadigol yn yr Awyr Agored***
*aelodau'r Cyfnod Sylfaen*

**Gorffennaf 2021** – ***Pecyn Gweithgareddau Her Olympaidd Blynyddoedd Cynnar Cymru 2021***
*i'w lawrlwytho i aelodau am ddim*

**Medi 2021** – ***Canllawiau Grŵp Rhiant a Phlentyn Bach***
*yn y cyfnod cynhyrchu, i'w lansio ym mis Hydref 2020*

# Cylchgrawn *small*talk

**Gydol y pandemig, roedd *small*talk yn dal i gael ei gyhoeddi'n chwarterol. Fodd bynnag, hanner ffordd trwy baratoi rhifyn yr haf 2020, daeth yn amlwg y byddai'n rhaid newid y fformat.**

Roedd nifer o ffactorau'n cyfrannu at hynny. Roedden ni'n sensitif i'r ffaith fod nifer o leoliadau wedi gorfod cau eu drysau dros dro neu wedi aros ar agor ond gyda llai o blant. Roedd yna debygrwydd, efallai, y gellid trosglwyddo'r feirws ar bapur a chardfwrdd – ond mae'n annhebygol iawn. Ac roedd y drafferth o argraffu a dosbarthu hefyd yn ffactor oherwydd bod sectorau eraill wedi gorfod gosod staff ar ffyrlo.

Yn hytrach nag argraffu a phostio'r cylchgrawn, fe benderfynwyd yn hytrach neilltuo cyllid ar gyfer cyfieithu'r cylchgrawn. Roedd hynny'n ein galluogi i gyhoeddi'r cylchgrawn yn ddigidol yn Gymraeg a Saesneg am y tro cyntaf, ac i annog ein darllenwyr i'w rannu gyda'u cysylltiadau.

Gydol y pandemig, rydyn ni wedi cefnogi'n haelodau trwy gynhyrchu cynnwys sy'n berthnasol, yn amserol ac yn berthnasol i'w hamgylchiadau presennol.




## Yr Haf 2020
## Astudiaethau achos gofal plant ar y llinell flaen

Roedd tua 30% o aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru ar agor ac ar y llinell flaen yn ystod y cyfnod clo cyntaf.

Ar ôl mis or' cyfnod clo, trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwnaethom ofyn i'n haelodau a oedd yn agored, ac yn gofalu am blant gweithwyr allweddol a phlant bregus a hoffent rannu eu profiadau gyda'r sector. Roeddem am gyhoeddi eu straeon yn y ***small*talk**. Roedd yr ymateb yn syfrdanol – yn agored, yn onest ac yn emosiynol. Cafodd crynodeb o'r astudiaethau achos a dderbyniwyd eu cyhoeddi yn rhifyn yr haf 2020. Mae'r hanesion, heb eu golygu, wedi'u casglu ac ar gael i'w darllen yma: https://www.earlyyears.wales/en/news/childcare-front-line-smalltalk-summer-2020

***#rainbowartprojectwales***

Roedden ni eisiau ceisio i roi rhywbeth positif i blant ac oedolion gyfrannu ato, felly dyma benderfynu eu gwahodd i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth y clawr. Bydd gwaith yr enillydd yn cael ei dangos ar glawr rhifyn yr hydref ac yn derbyn taleb Amazon am £100 ar gyfer eu lleoliad a thaleb £25 i'r enillydd ei hunan.

## Hydref 2020
## Mater Arweinyddiaeth

Beth nad oedd i'w garu am glawr rhifyn yr hydref. Daeth y cais, a enillodd ein cystadleuaeth yr Enfys, o Gofal Dydd Little Tigers yn Caldicot…#smile!

Er bod arweinyddiaeth effeithiol, dosturiol ac ystyriol yn rhedeg yn dawel trwy bob rhifyn o ***small*talk**, yn y rhifyn hwn aethom amdani. Credwn fod aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru'n gosod y safon ar gyfer gwella bywydau a chefnogi teuluoedd plant ifanc yng Nghymru, ac roedden ni eisiau dathlu hynny.

## Gaeaf 2020
## Cofleidio technoleg

Oherwydd nad oedden ni wedi gallu cynnal dathliad Gwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru'n 'fyw' yn gynharach yn y flwyddyn, fe wnaethom ni benderfynu gorffen y flwyddyn ar y brig a chynnal digwyddiad rhithiol yn hytrach. Cyhoeddwyd y manylion ar dudalen 4.

## Gwanwyn 2021
## Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac mae'r hawl i chwarae'n gyfraith yng Nghymru. Er gwaethaf y pandemig, mae chwarae'n dal yn rhan o blentyndod hapus ac iach.

Yn y rhifyn hwn, rydyn ni'n ystyried chwarae a'i bwysigrwydd i'r plant rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw a'u teuluoedd.

## Haf 2021
## Gofal plant ar y llinell flaen – flwyddyn ymlaen

Er gwaethaf cymaint o ddinistr mae Covid-19 wedi'i adael ar ôl, mae'r rhifyn hwn yn dangos ein bod, fel sector, yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau 'mai'r cyfan mae pob plentyn yn ei weld yw'r un wynebau hapus a'u hoff deganau' (tudalen 14).

Rydyn ni hefyd wedi gwneud newid pwysig arall i fformat y rhifyn hwn o'r cylchgrawn. Yn hytrach na gorfod pendroni sut i ddewis rhwng y cynnwys o ansawdd sydd ar gael i ni ar gyfer pob rhifyn, rydyn ni wedi penderfynu ychwanegu rhagor o dudalennau. Mae yna 32 o dudalennau yn y rhifyn hwn yn hytrach na 28.

# Datblygu'r Cyfnod Sylfaenol

## Cwricwlwm nas cynhelir

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi cefnogi datblygu'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas gynhelir a ariennir, a hefyd ddatblygu canllawiau Galluogi Llwybrau gyda Llywodraeth Cymru. Mae ein Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen wedi gweithio gydag ymarferwyr blynyddoedd cynnar, lleoliadau aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru, athrawon ymgynghorol ac arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar er mwyn paratoi, ar y cyd, ganllawiau penodol ar gyfer y sector er mwyn gwella datblygiad plant ar ddechrau eu gyrfa ddysgu.

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n dal i gefnogi lleoliadau aelodau ar draws Cymru sydd wedi cymryd rhan mewn treialu'r fframwaith. Byddwn hefyd yn dal i gefnogi'r sector i drosglwyddo'n effeithiol o'r fframwaith Cyfnod Sylfaen i'r fframwaith cwricwlwm nas gynhelir. Eisoes, mae **202** o ymarferwyr wedi llawrlwytho ein hadnoddau cwricwlwm Cwlwm.

## Cysylltu ag ymarfer effeithiol ymarferwyr Cyfnod Sylfaen yn ein Pwynt Siarad Cyfnod Sylfaen *small***talk**

Rydym wedi bod gweithio gyda 4 lleoliad aelod Blynyddoedd Cynnar Cymru i baratoi astudiaethau achos sy'n dangos sut maen nhw wedi datblygu dulliau o gynnwys a chysylltu â theuluoedd, trwy gyfathrebu wyneb yn wyneb o bell gyda thechnolegau cydweithio'n ddigidol er mwyn 'gymryd rhan ar y cyd yn ystyrlon' mewn trosglwyddiadau ac mewn chwarae a dysgu mewn cartrefi plant yn ystod cyfnod cyfyngiadau Covid-19 (*small***talk**, haf 2021).
Rydym hefyd wedi gweithio gydag ysgol a meithrinfa awyr agored i ddatblygu astudiaethau achos sy'n dangos dysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd (*small***talk**, gwanwyn 2021)






## Rhwydweithio gydag ymarferwyr Cyfnod Sylfaen

**Mae 180 o ymarferwyr, athrawon ac athrawon ymgynghorol wedi ymuno â ni yn ein digwyddiadau Rhwydwaith Rhagoriaeth Cyfnod Sylfaen.**

Rydym wedi cydweithredu gyda Sophie Hadaway a Gwenfair Hughes o Gyngor Celfyddydau Cymru, Pavla Boulton o Brifysgol De Cymru, Stella Louis, Neil Gilbride o Brifysgol Swydd Gaerloyw a Dawn Jones a Glenda Tinney o Brifysgol y Drindod Dewi Sant i ddarparu

- Dysgu Creadigol a Chwarae yn yr Awyr Agored
- Technoleg Ddigidol a Dysgu yn yr Awyr Agored
- Sgemas a'r awyr agored / Frobel a chysylltu â natur
- Arweinyddiaeth Effeithiol a Llesiant
- Datblygiad Corfforol yn yr Awyr Agored

Yn dilyn y digwyddiadau Rhwydwaith Rhagoriaeth Cyfnod Sylfaen rydym yn gweithio gyda 4 lleoliad i wreiddio dysgu creadigol yn eu gofodau awyr agored ac wedi cydweithredu gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gynhyrchu set o adnoddau corfforol i gefnogi dysgu creadigol yn yr awyr agored. Mae'r rhain wedi'u dosbarthu i **235** o aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru a darparwyr y Cyfnod Sylfaen.

***Roedd 42 arweinwyr ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar wedi ymuno â ni mewn digwyddiadau llai yn cael eu rhedeg ar y cyd â'r elusen CYCA (Conecting Youth, Children & Adults [Cysylltu Ieuenctid, Plant Oedolion]) i gefnogi 'Gwytnwch, Adferiad a Llesiant Staff'***

Dywedodd ymarferwyr fod yr hyfforddiant yn 'ddatguddiad' a'u bod wedi mynd o'r hyfforddiant gyda llawer o syniadau newydd ac ymarferol ar gyfer cefnogi llesiant a gwytnwch staff. Gweler hefyd: Canolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid Plant ac Oedolion – ffordd newydd ymlaen *small***talk**, (hydref 2020) tudalen 22 - 25

# Datblygu'r Gymraeg

**Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi'i ymrwymo i ddatblygu gweithlu blynyddoedd cynnar dwyieithog trwy wella sgiliau Cymraeg staff blynyddoedd cynnar. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n cefnogi staff sy'n gweithio yn y sector ar eu taith i ddysgu Cymraeg.**

***Mwy na 1900 o bwyntiau cyswlt o bell gyda sefydliadau aelodau***

***74 o ddysgwyr Cymraeg newydd yn cychwyn hyfforddi***

***Rhannu mwy nag 80 o adnoddau***

Yn ystod 2020, mewn ymateb i Covid-19, cafodd cyrsiau hyfforddi'r Ganolfan Genedlaethol eu hatal. O ganlyniad, roedd yn rhaid newid ein cefnogaeth draddodiadol i ddysgwyr a chefnogi o bell gan gynnwys dros y ffôn, trwy e-bost a galwadau fideo gyda lleoliadau a staff sy'n dysgu Cymraeg neu'n defnyddio Cymraeg gyda'u plant a theuluoedd.

I gefnogi'r sector, paratôdd Blynyddoedd Cynnar Cymru amrywiaeth o adnoddau dysgu, gan gynnwys adnoddau ar gyfer dysgu gartref, a chyfeiriadau at adnoddau sefydliadau partner megis Cymraeg i Blant, Mentrau Iaith Cymru a Book Trust Cymru. Roedd yr holl adnoddau yn cyfrannu at sicrhau fod teuluoedd a phlant yn gallu parhau i ymarfer Cymraeg yn y cartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd y themâu'n cynnwys trafod ffrwythau, chwarae gemau rhifau, rhigymau, storïau a darllen llyfrau; pob un yn seiliedig ar adnoddau sydd hawdd eu cael gartref.

Y llynedd crëwyd dros 80 o adnoddau i helpu sicrhau fod yna weithgareddau a chyfleoedd i barhau i ddatblygu'r Gymraeg i blant ac i staff sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar.

Wrth i'r cyrsiau Camau ail gychwyn yn gynnar yn yr haf 2021, rydym yn falch o gydnabod fod dros 70 o staff o'n sefydliadau aelod wedi dechrau ar gwrs Mynediad 1 ar lein. Mae hyn yn raddfa trosi o dros 60% o'r mynegiant o ddiddordeb yn y cwrs hwn. Gan fod yr hyfforddiant hwn yn elfen ganolog o wella sgiliau staff, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n cefnogi dysgwyr ar y llwybr dysgu newydd hwn, yn creu adnoddau awdio a fideo i fagu hyder ac yn rhedeg sesiynau sgyrsiau egwyl coffi anffurfiol, Caffi Clebran.








Cafodd Pecyn Llafaredd Iaith Blynyddoedd Cynnar Cymru ei ddatblygu yn ystod haf 2020 ac mae ar gael i'w lawrlwytho o https://www.earlyyears.wales/cy/cefnogaeth-i'r-gymraeg. Yn cael ei arwain gan rieni mae wedi'i ddylunio i gefnogi teuluoedd ac ymarferwyr i fwynhau'r cyfleoedd i siarad Cymraeg yn y lleoliad ac yn eu cymunedau.

## Ymgysylltiad y cyfryngau cymdeithasol o'r post cyntaf

*44 rhannu ar Facebook*
*48 trawiad uniongyrchol ar y dudalen lanio*
*13 ail drydar*
*11 hoffi ar Instagram*

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# 'Roedd yn gwneud i chi daflu golwg yn ôl ar y newidiadau ac ar yr ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn gwneud i chi sylweddoli gymaint rydyn ni wedi'i **gyflawni** fel tîm yn ystod y pandemig'.





# Ansawdd i Bawb

**Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gydnabod ac hyrwyddo darpariaeth gofal plant o ansawdd, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi datblygu Pecyn Gwaith Ymwybyddiaeth Ansawdd fel model amgen i'n Hansawdd i Bawb traddodiadol. Mae'n ffordd dros dro o gydnabod y gwaith rhagorol sy'n dal i gael ei wneud gan ddarparwyr gofal plant yn yr adegau anodd hyn ac fod o gymorth i leoliadau adfer o'r anawsterau a ddaeth yn sgil Covid-19.**

Yn ystod y 9 mis cyntaf ers ei gyhoeddi, mae 95 o ddarparwyr blynyddoedd cynnar wedi manteisio ar y cyfle i fod ymysg y cyntaf i gymryd rhan yn y dull newydd hwn o asesu.

Mae'r Pecyn Gwaith yn cynnwys teclyn hunan asesu ystyriol hawdd i'w gwblhau. Ar y cyd â Thrafodaeth Broffesiynol rithiol gydag asesydd profiadol, mae'r holl broses yn galluogi ystyried a chydnabod ystod y gwaith a wneir gan staff cymwys. Ar ôl cwblhau, bydd darparwyr yn derbyn crynodeb ysgrifenedig a thystysgrif, y ddau yn cydnabod eich gwaith.

Mae darparwyr dydd sydd wedi cwblhau'r Pecyn Gwaith yn dweud wrthym ei fod yn eu helpu i ystyried y mesurau maen nhw wedi'u sefydlu ac wedi'u helpu i ystyried beth arall ddylen nhw ei wneud i adfer eu lleoliad o'r caledi a achoswyd gan y pandemig Covid-19. Dyma ddetholiad o'r adborth teimladwy a dderbyniwyd oddi wrth darparwyr:

**'Roedd y profiad cyfan o'r pecyn gwaith ansawdd gofal plant yn bositif. Roeddwn i'n teimlo fod y rhestr wirio'n dangos yn glir pa ganlyniad a ddisgwylid, roedd y cwestiynau ar ddiwedd pob adran o help i mi wrth baratoi ar gyfer yr alwad fideo. Yn ystod y drafodaeth gyda'r asesydd, roeddwn i'n teimlo fy ysbryd yn codi ac wedi fy nghysuro, er bod y cyfnod hwn yn un ansicr ac yn dal i newid, ein bod yn gwneud gwaith gwych. Ar ôl i'r alwad fideo orffen, fe gysylltais i â'm tîm i ddweud pa mor dda yr oedd yr asesiad wedi mynd a pha mor werthfawrogol yr oedd hi gyda'n hymarfer.'**

**'Roedd y dystiolaeth yn hawdd ei chasglu gan ei bod yn wybodaeth roeddwn yn ei defnyddio'n ddyddiol'.**

**'Roeddwn i'n gallu edrych yn ôl ar ein hymarfer a gweld pa newidiadau y gellid eu gweithredu. Roeddwn i hefyd yn cael y teimlad fy mod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a rheolaethau, ond hefyd yn teimlo fod rhywun yn gwerthfawrogi'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud, waeth beth am y pandemig a'r cyfnod clo'.**

*I ganfod rhagor ymwelwch â* ***earlyyears.wales***
*neu e-bostiwch* ***info@earlyyears.wales***

# Llywodraethiant

Bu Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Elusennau am flynyddoedd lawer yn cefnogi pwyllgorau sy'n cael eu rheoli'n wirfoddol i weithredu ac i ddefnyddio'r cyfansoddiad gorau ar gyfer eu sefydliad. Mewn sawl achos, bod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol sy'n cynnig y diogelwch gorau i'r Ymddiriedolwyr yn erbyn unrhyw atebolrwydd personol. Mae'n tîm ymroddedig yn gweithio ledled Cymru, gan geisio bod yn rhagweithiol wrth helpu'r sefydliadau hyn i gael cyfansoddiad a chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, yn rhedeg gwemiarau, gweithdai a sesiynau 1:1 gyda byrddau sy'n cael eu rhedeg yn wirfoddol.

***"Fe hoffwn i amlygu rhai o'r gwaith penodol rydym wedi'i wneud yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein tîm cofrestru a gwasanaeth y cwsmer wedi gweithio gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru ac maen nhw wedi cytuno ar ddogfennau llywodraethu cymeradwy gan gynnwys cyfansoddiadau Sefydliad Corfforedig Elusennol ac wedi sefydlu proses i gael y gymeradwyaeth angenrheidiol trwy'r corff ymbarél hwnnw i drosglwyddo asedau a dyledion unrhyw Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd ac mae hynny'n enghraifft o sut rydyn ni'n ei gwneud yn haws i elusennau bychain weithredu ac yn rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i ddal ati i'w wneud"***

*Helen Stephenson CBE, Prif Weithredwr y Comisiwn Elusennau*

Weithiau mae'n rhaid i ni helpu pan fydd heriau'n codi i gefnogi elusennau sy'n mynd i drybini.

**Dyma un enghraifft o astudiaeth achos.**

## Cymorth i leoliad ddatrys problemau cyflogaeth a chytundebol a dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol.

Gweithiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gydag ymddiriedolwyr oedd newydd eu penodi mewn lleoliad ble roedd y staff yn credu eu bod yn hunan gyflogedig. Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn amau hynny, gan fod y staff wedi trosglwyddo o dan TUPE o gyflogwr arall, a dylai eu telerau a'u hamodau, fel cyflogeion, fod yn dal yr un fath. Roedd y staff yn credu'n gryf eu bod yn hunan gyflogedig ac yn dal i weithio fel staff hunan gyflogedig mewn lleoliad â statws anghorfforedig.

Pan orfododd Covid-19 y lleoliad i gau, cysylltodd y lleoliad a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i geisio cofrestru ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws. Gwrthododd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ffyrlo oherwydd statws y staff, gan eu cyfeirio at y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig. Cysylltodd y staff ag ACAS a oedd yn ansicr a oedden nhw'n gyflogeion neu'n hunan gyflogedig.

Roedd hyn yn sefyllfa anodd gan fod pryderon yn codi ynghylch atebolrwydd ariannol personol yr Ymddiriedolwyr newydd.

Gweithiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru'n galed gyda'r Ymddiriedolwyr newydd i sefydlu gweithdrefnau a chytundebau priodol. Roedd y broses yn un gymhleth ond roedd yn sicrhau fod y problemau statws cyflogaeth a chytundebol yn cael eu datrys.

Gweithiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gyda'r Ymddiriedolwyr gydol y cyfnod clo, gan gynnal 12 o gyfarfodydd rhithiol, 67 o alwadau ffôn ac 122 o e-byst wrth gynnig arweiniad a chefnogaeth gyda gweithdrefnau, polisïau a chyfraith cyflogaeth ac elusennol. Roedd yr Ymddiriedolwyr wedi ystyried talu crocbris i fargyfreithiwr i ddatrys y problemau cyflogaeth ond llwyddodd Blynyddoedd Cynnar Cymru i'w cyfeirio at gyfreithiwr cyflogaeth amgen a roddodd y cyngor a chefnogaeth roedden nhw ei angen, gan arbed gryn gostau a thrafferth.

Cafodd anghydfod cytundebol cymhleth ei setlo trwy hwyluso trafodaethau ac mae'r lleoliad wedi gallu symud ymlaen, gan fynd o nerth i nerth. Llwyddwyd i osgoi achos cyfreithiol drud, ac erbyn hyn mae'r lleoliad wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, gan roi atebolrwydd cyfyngedig iddyn nhw eu hunain ac unrhyw Ymddiriedolwyr yn y dyfodol, gyda chefnogaeth sylweddol oddi wrth Blynyddoedd Cynnar Cymru.





***"Cefais gyfarfod arall gyda Sue ac Elaine ddoe ac fe hoffwn gymryd y cyfle hwn i anfon fy niolchiadau iddyn nhw am eu holl gefnogaeth. Mae Sue wedi bod yn anhygoel yn ein harwain ac yn rhoi'r cyngor roedden ni ei angen i gael trefn ar ein llywodraethiant ac i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Ac mae Elaine yn seren, mae wedi bod yn gymaint o gefnogaeth i mi yn bersonol dros y 12 mis diwethaf (mae hyd yn oed wedi fy ffonio y tu allan i oriau swyddfa gan ei bod yn gwybod fy mod yn gweithio llawn amser). Maen nhw'n dîm grêt ac yn helpu xx i gael eu hunain yn barod i symud" (Ymddiriedolwr)***

# Cynllun Atgyfeirio Anghenion Ychwanegol

**Mae'r Cynllun Atgyfeirio Anghenion Ychwanegol Casnewydd yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd.**

Yn ystod y pandemig, newidiodd natur gwaith anghenion ychwanegol. Cafodd pob un o daliadau contract y Cynllun Atgyfeirio Anghenion Ychwanegol eu hanrhydeddu o Fawrth i Ebrill 2020 a chafodd rhieni eu hysbysu y byddai'r taliadau Cynnig Gofal Plant yn cael eu talu i leoliadau gofal plant ac i awdurdodau lleol a oedd yn derbyn cyllid ar gyfer y plant yn eu gofal.

Roedd y rhan fwyaf o waith y cyfnod clo cyntaf yn golygu cadw mewn cysylltiad â theuluoedd y plant gydag anghenion ychwanegol oedd yn aros gartref. Cyfnewidiwyd e-byst gyda gwybodaeth a gweithgareddau a dolenni i wefannau perthnasol, er mwyn cadw cysylltiad gyda'r plant a'r rhieni mewn chwarae a dysgu. Ffoniwyd rhieni, yn enwedig y rhai roedd yn wybyddus fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl, i gadw cysylltiad. Roedd pobl broffesiynol yn cysylltu er mwyn cadw ar y blaen ac roedd y Cydlynydd Cyfnogi Anghenion Ychwanegol ar gael petai riant eisiau neu angen rhywun am sgwrs.

Pan dechreuodd y cynllun ail ariannu plant o fis Medi 2020 roedd yr ymateb yn araf i ddechrau a rhai o'r anawsterau oedd:

- Rhieni ddim yn barod i ganiatáu i'w plant fynychu'r lleoliad gofal plant
- Diffyg hyder
- Pryderon ynghylch y cyswllt corfforol sydd ei angen i gefnogi plentyn gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Roedd yn anodd defnyddio oedolion ychwanegol yn y sesiynau diffyg gofod i gadw pellter cymdeithasol a gofod
- Roedd yn anodd i blant gydag anghenion ychwanegol ddeall y trefniadau newydd
- Gan ei bod yn amser hir ers i'r plant fod yn y lleoliad, roedd yn anodd rheoli'r plant

## Ein hymateb

Unwaith y dechreuodd plant ddychwelyd i leoliadau gofal plant, buddsoddodd Blynyddoedd Cynnar Cymru mewn Zoom yn ogystal â Teams i gael dolen weledol rhwng y lleoliadau gofal plant, y Cydlynydd a'r rhieni. Roedd hyn yn amhrisiadwy i warchodwyr yn casglu plant o gartref, i gynnal ffordd ddiogel o gyfarfod gan gyfnewid gwybodaeth i allu gweld pwy fyddai'n casglu'r plentyn er heddwch meddwl rhieni.

Cynhyrchodd Blynyddoedd Cynnar Cymru ganllawiau ar gyfer ail gyflwyno plentyn yn ôl i leoliad, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer cyn agor, polisïau covid a rheoli swigod. – https://www.earlyyears.wales/cy/adnoddau-covid-19

Gan nad oedd ein cydlynydd wedi gallu gwneud ymweliadau corfforol, rhoddwyd cefnogaeth i'r lleoliadau i gynnal arsylliadau mwy cynhwysfawr ac ystyrlon i'w defnyddio fel tystiolaeth i gefnogi lleoliad plentyn.

Rydym wedi cynhyrchu taflen i hysbysu rhieni a phobl broffesiynol am y cynllun, mae hon hefyd ar gael i'w llawrlwytho'n ddigidol.

Mae llawer o alwadau a cheisiadau wedi bod am wasanaeth eleni ac mae yna lawer o ddefnyddwyr gwasanaeth eraill wedi bod â rhan gan gynnwys: Ymwelwyr Iechyd, Gwarchodwyr, Portage, Cydlynydd Gofal Anghenion Cymhleth, ISCAN, Swyddog Cyswllt Teulu, Sparkle, Tîm Cyn Eni Aneurin Bevan, Gwasanaeth Nam ar y Clyw, Gweithwyr Ymyrraeth Teulu, GAVO, NCC Inclusion, Lleferydd ac Iaith.

## Ar y gweill

Mae'r Cynllun Cyfeirio'n dal i ddilyn ei broses arferol ac mae cyfarfodydd panel aml asiantaeth yn ôl gan ddefnyddio Teams. Mae'r panel wedi ehangu ei sgôp gyda rhagor o bobl broffesiynol yn cael eu gwahodd ble bo'n bosibl.

Nid yw ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u hail ddechrau eto felly, rydym yn dal i ddefnyddio Zoom gyda rhieni a lleoliadau, mae cyfarfodydd PCP (Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn) yn cael eu defnyddio erbyn hyn ar Zoom neu Teams.







## Astudiaeth Achos

Mae atgyfeiriadau am gymorth bob amser yn cael eu hystyried yn y Panel, yn enwedig lle mae gan rieni iechyd meddwl bregus.

Gofynnwyd am gymorth i blentyn a fydd yn mynychu lleoliad Dechrau'n Deg pan fyddant yn troi'n ddwy ond sydd angen help nawr. Mae gan Mam nid yn unig broblemau iechyd meddwl difrifol ond mae ganddi nam ar ei golwg a babi newydd. Roedd nifer o wasanaethau yn darparu cefnogaeth ond gofynnwyd am help gyda gofal plant. Gofynnwyd am warchodwr plant, a sefydlwyd cyfarfod Zoom i wneud cyflwyniadau.

Gwnaethpwyd lleoliad, ond oherwydd nifer o faterion diogelu gan gynnwys y plentyn yn cael damwain gartref, anfonwyd MARF at y Tîm Dyletswydd ac Asesu. Gohiriwyd y lleoliad hyd nes y cynhelir ymchwiliad. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad a rhoi rhai haenau ychwanegol o gefnogaeth ar waith, dechreuwyd contract gofal plant newydd.

Mae wedi helpu i adeiladu perthynas o ymddiriedaeth rhwng rhiant a gwarchodwr plant ac mae'n ffordd hawdd o gefnogi'r teulu gyda gwasanaeth o ddrws i ddrws. Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda chyfathrebu da rhwng y ddau barti ac mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gwybod i'r Cydlynydd am unrhyw newidiadau neu'n gofyn am gyngor, er enghraifft pan gafodd y plentyn lawdriniaeth frys yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'r plentyn wedi setlo gyda'r gwarchodwr plant ac mae'r lleoliad yn gweithio'n dda iawn.

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru



# Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru

**mae Blynyddoedd Cynnar Cymru a Gymnasteg Cymru wedi partneru i ddarparu rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru i blant 0 - 5 mlwydd oed ledled Cymru, fel rhan y Gronfa Iach ac Egnïol - partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

**Mae Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru'n darparu'r canlynol:**

## Ystadegau:

*Yn cael ei ddarparu mewn 22 o awdurdodau lleol*

*Cyfanswm o 24 o grwpiau Cymru'n Actif Gyda'n Gilydd*

*Darparwyd 130 o sesiynau*

*123 o ymarferwyr Babi Actif a Chi wedi'u hyfforddi*

*199 o rieni / gofalwyr a 207 o blant ar y gronfa data*

*250 o becynnau gweithgaredd wedi'u cynhyrchu a'u hanfon allan*

*5 o ddigwyddiadau awn i hedfan barcud*



*"Roeddwn yn hoffi'r ffaith bod eitemau bob dydd y cael eu defnyddio, sydd gennych eisoes o gwmpas y tŷ, felly, does dim rhaid i chi brynu teganau ffansi i gael amser da."*

## Cymru'n Actif Gyda'n Gilydd

Rhaglen o weithgaredd dwyieithog ar sail symudiad a chwarae aml sgiliau 5 wythnos mewn lleoliadau cymunedol a mannau awyr agored ar draws Cymru yw Cymru'n Actif gyda'i Gilydd.

### Dyddiadau Allweddol:

- **5 Tachwedd 2020**
  Rhaglen ar lein gyntaf yn cael ei ddarparu ar gyfer 20 o rieni a phlant
- **16 Chwefror 2021**
  Darparu'r rhaglen gorfforol gyntaf ar gyfer Meithrinfa Ddydd Abacus, Abertawe
- **6 Mawrth 2021**
  Roedd yn cael ei gydnabod fod tadau'n cael eu hesgeuluso o ran rhoi cefnogaeth gyda'u rhai bach. Gan gydweithio gyda 'Dads Can' Cymru, darparwyd ein rhaglen 5 wythnos wedi'i hanelu at Dadau'n unig. Cymerodd 32 o rieni a phlant ran
- **8 Mehefin 2021**
  Darparwyd y rhaglen gorfforol gyntaf ar ôl y cyfnod clo ar gyfer Meithrinfa Myrtle House, Llanelli

## Babi Actif a Chi

Mae'r rhaglen hyfforddiant Babi Actif a Chi'n anelu at ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector i'w galluogi i gyflwyno gweithgareddau a negeseuon iechyd a llesiant i'r plant yn eu gofal.

- **Wythnos Dysgwyr Oedolion (22 Medi 2020)** 14 yn bresennol ar lein

*"Roedd y sesiynau'n wych, un o'r cyrsiau gorau rwyf wedi'i gwneud. Roedd y cyflymder yn berffaith ac roedd yn wych cael gweld a chael blas ar gymaint o bethau ymarferol. Mae'r syniadau ar gyfer helpu'ch un bach i ddysgu'r sgil nesaf wedi bob yn wirioneddol o gymorth a dyma'r unig gwrs oed yn gwneud hynny. Byddai'n wych petai'r cwrs yn gwpl o sesiynau'n hwy ac yn cynnwys cerdded a sgiliau eraill megis chwifio llaw a chlapio."*





## Babi Actif yn y Cartref


Rhaglen chwe wythnos yw Babi Actif yn y Cartref i gefnogi rhieni newydd i ddod i ddeall pwysigrwydd symud trwy chwarae yn y 1,000 diwrnod cyntaf.

Datblygwyd y rhaglen yn ystod y cyfnod clo gan fod yr angen wedi'i nodi a chafodd ei ychwanegu at raglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru i gyrraedd rhieni gyda babanod a oedd wedi'u geni yn ystod y cyfnod clo.



- **25 Tachwedd 2020**
  Sesiwn gyntaf ar lein yn cael ei ddarparu i 10 o rieni a babis
- **10 Mehefin 2021**
  - Sesiwn gorfforol gyntaf ar ôl y cyfnod clo
  - 22 o rieni a babis yn bresennol
  - Ers y cyfnod clo, rydym yn parhau â'n gwaith gyda'r clybiau gymnasteg, grwpiau rhiantu a Women Connect First presennol.

*Postiad Facebook gyda'r mwyaf o gysylltiadau:* ***7469 o bobl wedi'u cyrraedd post on 9 June***



# Gwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020



**Ddiwedd Ionawr 2020, yn llawn cyffro, roedden ni'n agor yr enwebiadau ar gyfer yr ail o Wobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru a oedd i'w cynnal yng Nghaerdydd ar 12 Mehefin.**

Yn anffodus, oherwydd Covid-19 bu'n rhaid gohirio ein dathliadau yn 2020, gan, yn hytrach, ddechrau cynllunio ar gyfer 2021. Wrth i 2020 symud ymlaen, a dim golwg fod y pandemig yn dod i ben, ac ar ôl gweld y gwaith anhygoel oedd yn cael ei wneud gan ein haelodau yn y sector, fe benderfynwyd gorffen y flwyddyn ar y brig a chynnal ein gwobrau 2020 wedi'r cyfan.

Roedden ni wrth ein bodd pan, ar noson wlyb a gwyntog ym mis Rhagfyr, fe ymunodd cymaint o leoliadau â ni ar gyfer ein dathliad rhithiol o Wobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru dan ofal Dave Goodger, Blynyddoedd Cynnar Cymru.

***Yn ystod y noson cyflwynwyd 15 gwobr...***

- ***Gwobr 1 Lleoliad y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru***
  *Little Inspirations Day Nursery Ltd (GRŴP)*
- ***Gwobr 2 Arloesydd y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru***
  *KIN Nature Kindergarten, Trefynwy*
- ***Gwobr 3 Ymarferydd y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru -** Margaret Powell, Golden Manor Nursery Ltd, Sir Benfro*
- ***Gwobr 4 Gwirfoddolwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru -** Pat Moreton, Canolfan Blant Gibbonsdown, Bro Morgannwg*
- ***Gwobr 5 Dysgwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru -** Sandra Strait, Little Tigers Day Care, Sir Fynwy*

## Gwobrau Cydnabyddiaeth Arbennig

I gydnabod lleoliadau sydd wedi gorfod ymdopi gyda sefyllfaoedd na fydden nhw, fel arfer, byth yn eu gweld.

### Rachael's Playhouse, Rhondda Cynon Taff
Fe'i gwobrwywyd am ei chefnogaeth eithriadol i leoliadau ar draws rhwydwaith Blynyddoedd Cynnar Cymru yn ystod y pandemig.

### Little Friends, Rhondda Cynon Taff
Fe'i gwobrwywyd am oroesi effeithiau dinistriol llifogydd ar ei adeilad yn gynnar yn 2020. Roedden nhw'n dangos gwytnwch ac ysbryd cymunedol anhygoel wrth oroesi'r heriau oedd yn eu hwynebu.

### Meithrinfa Dydd Pebbles, Abertawe
Fe'i gwobrwywyd am ei dull arloesol o ofal plant.

### The Learning Tree, Caerdydd
Cydnabyddiaeth am ofal plant hyblyg yn cael ei arwain gan y rheini.

### Talitha Brown, Penmorfa Playmates, Sir Ddinbych
Cydnabyddiaeth am ei sgiliau rheoli a'i harweinyddiaeth ragorol.

### Ymddiriedolwyr Grŵp Chwarae Gresffordd, Ducks and Ducklings, Wrecsam
Diolch i chi Janet, Jean a Kathryn am eich gwaith gwirfoddol ar ran y lleoliad.

### Sally Munro, Grŵp Chwarae Trelogan, Sir y Fflint
Fe'i gwobrwywyd am ei hymrwymiad i'w swydd a'i lleoliad yn ystod 2020..

### Carol Dove, Grŵp Chwarae Penguin, Sir y Fflint
Mae Carol wedi dangos ymrwymiad anhygoel i'w swydd fel ymddiriedolwr newydd.





## Cyrhaeddiad Neilltuol Ansawdd i Bawb

I gydnabod ymrwymiad i'r heriau a wynebwyd gan leoliadau yn ystod yr amseroedd ansicr hyn, ac i leoliadau sydd wedi dangos ymrwymiad i gyrraedd achrediad Ansawdd i Bawb flwyddyn ar ôl blwyddyn.

- **Meithrinfa Dydd Rose Garden, Abertawe**
- **Meithrinfa Myrtle House, Sir Gaerfyrddin**













***"Rydych chi i gyd yn enillwyr; mae pob un ohonoch yn sêr ac rydych chi'n anhygoel"***

***Dave Goodger, Prif Weithredwr***

## Enwebiadau yn awr ar agor....

Ymunwch â ni fis Rhagfyr yng Ngwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2021. Mae enwebiadau yn awr ar agor. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau cyffrous i'n categorïau gwobrau ac i'r broses enwebu. Edrychwch ar ein tudalen gwobrau: earlyyears.wales: **earlyyears.wales**

# Diolch...

**Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n dîm gydag unigolion ymroddedig ac angerddol sy'n ymdrechu'n barhaus i symud ymlaen, ac sydd, yn ei dro, yn arwain at allu cynnig gwell gwasanaeth i'n haelodau.**

Yn ein teithiau ein hunain, rydyn ni'n yn dod ar draws busnesau, unigolion a sefydliadau sy'n rhannu ein hangerdd am y blynyddoedd cynnar trwy sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae yna ormod o'r hanner i'w rhestru'n unigol ond dyma gipolwg o'r amrywiaeth eang o bartneriaethau rydym wedi dal i'w datblygu a rhai nad rydym ond prin yn dechrau:



- **Llywodraeth Cymru**
- **Cyllidwyr Awdurdodau Lleol** – Casnewydd, Sir Fynwy, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Ddinbych, Abertawe, Ceredigion, Sir Caerfyrddin
- **Gymnasteg Cymru** – ein partneriaid Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru
- **Mudiad Meithrin, Pacey Cymru, NDNA Cymru a Chlybiau Plant Cymru Kids Clubs** – ein partneriaid Cwlwm
- **Cynghrair Blynyddoedd Cynnar, Blynyddoedd Cynnar yr Alban, Blynyddoedd Cynnar (Iwerddon), Plentyndod Cynnar Iwerddon –** ein partneriaid 5-Cenedl
- I bawb sydd wedi darparu hyfforddiant ac wedi cyfrannu at *small***talk**, i enwi ond ychydig **Prifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Jenny Barber, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Easyfundraising, NSPCC, Booktrust Cymru, Nicci Hooper, Chwarae Cymru, Camau, Nofio Cymru, CYCA, Demna Consulting Ltd.**
- **Towergate Insurance** – am noddi'n Gwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru